GWASANAETH TÂN AC ACHUB
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
FIRE AND RESCUE SERVICE

# ADRODDIAD CYDRADDOLDEB BLYNYDDOL

01 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018

www.tancgc.gov.uk


GWASANA TH TÂN AC ACHUB
Canolbarth Gorllewin Cymru
Mid and Wes Wales
FIRE AND RES UE SERVICE





# Rhagair



**Mae'n bleser gennyf gyflwyno Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018. Diben yr Adroddiad hwn yw rhoi darlun o'r hyn yr ydym wedi ei wneud i hyrwyddo cydraddoldeb a chyflawni ein dyletswyddau statudol, o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Dyletswyddau Cydraddoldeb Penodol Cymru.**

Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol y Gwasanaeth yw un o'r ffyrdd yr ydym yn dangos i ba raddau yr ydym yn cyflawni ein rhwymedigaethau moesol a chyfreithiol o ran cydnabod amrywiaeth a hyrwyddo cydraddoldeb. Mae'n adlewyrchu'r gwaith yr ydym yn ei wneud yn ein cymunedau yn ogystal â chofnodi data/gwybodaeth allweddol am gydraddoldeb.

Mae'r adroddiad hwn yn gyfle i ni ddathlu rhai o'n llwyddiannau o ran gwella Cydraddoldeb ac Amrywiaeth, a hynny yn ein sefydliad ac yn y cymunedau yr ydym yn falch o'u gwasanaethu. Yn bersonol, teimlaf ein bod, fel sefydliad, wedi cymryd camau breision ymlaen yn y maes hwn dros y blynyddoedd diwethaf, ac rwy'n hynod falch bod llawer o'r gwaith hwn wedi arwain at ganlyniadau cadarnhaol i lawer yn ein cymunedau lleol. Serch hynny, rydym wedi nodi nifer o ffyrdd y credwn y gallwn wella'r modd yr ydym yn ymgysylltu â'n cymunedau a'n cyflogeion, ac mae'r rhain yn feysydd y byddwn yn canolbwyntio arnynt yn ystod y cyfnod adrodd nesaf.



**Chris Davies QFSM MBA**

Prif Swyddog Tân

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **3** |
| **Pwy ydym ni** | **4** |
| **Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau** | **5** |
| **Y Sefyllfa Bresennol** | **6** |
| **Dyletswyddau Penodol** | **6** |
| Amcan 1 | 6 |
| Amcan 2 | 7 |
| Amcan 3 | 9 |
| Amcan 4 | 10 |
| Amcan 5 | 11 |
| Amcan 6 | 13 |
| Amcan 7 | 14 |
| Amcan 8 | 15 |
| **Y Dyfodol** | **15** |
| Atodiadau: | 16 - 42 |
| Data Staff GTACGC | |
| Data Staff GTACGC | |
| Data Recriwtio Staff Amser Cyflawn GTACGC | |
| Data Ymadael Staff Amser Cyflawn GTACGC | |
| Data Recriwtio Staff Ar Alwad GTACGC | |
| Data Ymadael Staff Ar Alwad GTACGC | |
| Data Recriwtio Staff Cymorth GTACGC | |
| Data Ymadael Staff Cymorth GTACGC | |
| Data Dyrchafiad GTACGC | |
| Data Trosglwyddo Cyflogeion Gtacgc | |
| Data Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân Yn Y Cartref | |
| Holiadur ‘Y Bobl Yr Ydym Yn Eu Gwasanaethu | |
| Data A Gasglwyd Trwy System Cofnodi Digwyddiadau Y Gwasanaeth | |
| Data Ymgysylltu Ac Ymgynghori 2017-2018 | |
| **Sut i Gysylltu** | |



**75% wedi’i ailgylchu**

Cyhoeddwyd ar bapur mae 75% ohono wedi’i ailgylchu

# Cyflwyniad

**Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r flwyddyn ariannol o fis Ebrill 2017 i fis Mawrth 2018, ac fe'i cyflwynir o dan ein gofynion adrodd statudol a bennir gan reoliad 16 o Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011.**

## Beth y mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn ei olygu i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru [GTACGC]?

Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn fater busnes allweddol i'r Gwasanaeth, a'r prif ffactorau busnes sy'n ei sbarduno i gefnogi strategaethau sy'n ymwneud ag amrywiaeth yw:

- Rheoli risg ac enw da
- Gwella perfformiad unigolion a busnesau
- Datblygu diwylliant creadigol ac arloesol
- Diwallu anghenion ein cymunedau
- Denu, cadw a datblygu cyflogeion
- Cydymffurfio â Deddfwriaeth

Mae cyfle cyfartal yn cwmpasu'r modd y mae'r Gwasanaeth nid yn unig yn darparu gwasanaethau, ond hefyd yn sicrhau mynediad at wasanaethau a gwybodaeth, yn cynnwys pobl mewn penderfyniadau, ac yn sicrhau ei fod yn cynnal asesiadau risg ac yn craffu ar bolisïau a gweithdrefnau'r Gwasanaeth o ran cydraddoldeb yn barhaus, er mwyn bod yn sefydliad sy'n ymdrechu i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon yn erbyn unrhyw grŵp/grwpiau neu unigolyn.



# Yr Awdurdod a'r Gwasanaeth

**Mae Awdurdod Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cynnwys 25 o aelodau etholedig, sy'n cynrychioli wardiau unigol mewn chwe Awdurdod Unedol cyfansoddol, sy'n ffurfio ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.**

Yr Awdurdodau Unedol yw:

- Carmarthenshire
- Ceredigion
- Neath Port Talbot
- Pembrokeshire
- Powys
- City and County of Swansea



Mae'r Gwasanaeth yn gyfrifol am ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch i'r cyhoedd, rhaglenni atal ac amddiffyn, ac ymateb i argyfyngau yn ardal Canolbarth a Gorllewin Cymru.

Mae'r sefydliad yn cyflogi dros 1,300 o aelodau o staff mewn gwahanol gategorïau cyflogaeth, h.y. Staff Gweithredol, Staff Rheoli a Staff Cymorth, ac mae'n ymestyn dros ryw 4,500 milltir sgwâr – bron dwy ran o dair o Gymru, gan wasanaethu amrywiaeth eang o gymunedau yn ei ardaloedd arfordirol, trefol a gwledig.

## Rôl yr Awdurdod Tân yw:

- Cyflawni holl ddyletswyddau a chyfrifoldebau Awdurdod Tân yn unol â deddfwriaeth a rheoliadau priodol, yn benodol Deddf Argyfyngau Sifil 2004, Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 – a ddaeth i rym ar 1 Hydref 2006.
- Cytuno ar y Cynlluniau Gwella Blynyddol, y cyllidebau refeniw a chyfalaf a chyfraniad y cynghorau cyfansoddol.
- Monitro'r cyllidebau refeniw a chyfalaf a delio ag unrhyw amrywiadau sylweddol, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch unrhyw gyfraniadau atodol.

Arweinir Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru gan y Prif Swyddog Tân, sydd â chyfrifoldeb gweithredol a rheoli corfforaethol cyffredinol dros y Gwasanaeth. Ef hefyd yw Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig.

# Ein Gweledigaeth, Cenhadaeth, Gwerthoedd a Blaenoriaethau

| | |
|---|---|
| GWELEDIGAETH | Bod gyda'r gorau yn y byd am ddarparu Ymateb Brys a Diogelwch Cymunedol |
| CENHADAETH | Ymgysylltu â phobl, cysylltu â hwy, eu datblygu a'u hysbrydoli i ddarparu Gwasanaeth gwych. |
| GWERTHOEDD | Gwneud y peth cywir; Trin pobl â pharch; Perfformio gyda rhagoriaeth |
| BLAENORIAETHAU | Cydweithio; Arloesedd; Gwella'r Modd y Darperir ein Gwasanaethau; Grymuso ein Staff; Gwella ein Hasedau a'n defnydd o Adnoddau; Cynaliadwyedd; Cyfathrebu ac Ymgysylltu |
| Byddwn yn cyflawni hyn drwy wneud y canlynol... | Gweithio tuag at 12 o Amcanion Gwella |

# Y Sefyllfa Bresennol

## Dyletswyddau Penodol Cymru y Ddeddf Cydraddoldeb (2010)

Mae'r adran hon yn dangos yr hyn yr ydym wedi ei wneud, a'r hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud, mewn perthynas â Dyletswyddau Penodol Cymru, ac mae'n ategu, yn hytrach na dyblygu, yr wybodaeth yn ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol cynhwysfawr.

Gallwch weld y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar: **tancgc.gov.uk** neu ofyn am gopi papur trwy gysylltu â'r cyfeiriad ar y clawr cefn

---

# Amcan 1

Sicrhau bod gennym y systemau angenrheidiol ar waith i gasglu a phrosesu'r data y mae arno eu hangen.

## Rheswm

Mae targed ein gwaith ataliol yn seiliedig ar gyfres gydnabyddedig o dybiaethau o ran pa grwpiau yn ein cymunedau sy'n wynebu'r risg fwyaf. Wrth i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu a natur y risgiau hyn newid, mae'n bwysig ein bod yn casglu ac yn dadansoddi'r data priodol a fydd yn ein galluogi i brofi'r tybiaethau hirsefydledig hyn, a sicrhau ein bod yn gwerthuso pwy sy'n wynebu'r risg fwyaf yn barhaus, fel ein bod yn gallu targedu ein hadnoddau a mireinio ein gwasanaethau er mwyn sicrhau eu bod mor effeithlon ac effeithiol â phosibl.

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Mae trefniadau atgyfeirio gan asiantaethau partner sy'n gweithio gydag unigolion agored i niwed yn cael eu cefnogi gan Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth neu Gytundeb Lefel Gwasanaeth, yn dibynnu ar y trefniadau atgyfeirio. Lle mae'r Gwasanaeth yn nodi rhagdueddiadau yn rhan o'i waith yn y gymuned, mae'r rhain yn cael eu cyfeirio at yr asiantaeth berthnasol trwy ein trefniadau Diogelu.
- Mae'r Gwasanaeth wedi datblygu modiwl Ymgysylltu â'r Gymuned ar-lein yn rhan o System Wybodaeth yr Adran Rheoli Risgiau Tân Cymunedol (CFRMIS), a hynny er mwyn cofnodi'r cysylltiad rhwng y Gwasanaeth a phob unigolyn, yn ogystal ag unrhyw ddata ynghylch risgiau neu ragdueddiadau posibl.
- Mae gwybodaeth am risgiau yn cael ei chasglu trwy ein hymweliadau diogelwch yn y cartref, ac yn cael ei chroesgyfeirio â gwybodaeth am ddigwyddiadau lle y nodwyd rhag-dueddiadau, er mwyn sicrhau bod ein gwaith targedu a'n deunyddiau ymgyrchu yn parhau i gael eu cyfeirio at y rheiny yr ystyrir eu bod yn wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau. Mae'r wybodaeth am weithgarwch digwyddiadau ac ymgyrchoedd yn cael ei monitro trwy Grwpiau Cymru Gyfan, a sefydlwyd i ganolbwyntio ar drefniadau diogelu.
- Mae'r Gwasanaeth wedi mabwysiadu ymagwedd Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif trwy weithio gyda phartneriaid er mwyn darparu eu negeseuon iechyd a lles nhw hefyd, a hynny yn rhan o'n hymweliadau diogelwch yn y cartref. Mae'r Gwasanaeth hefyd yn darparu hyfforddiant i'n Partneriaid Trydydd Sector, er mwyn cynnig Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref i'r aelodau hynny o'r cyhoedd sy'n wynebu'r risg fwyaf ac y mae'r Gwasanaeth yn cael anhawster eu cyrraedd.

- Mae ein trefniadau rhannu data yn ffactor pwysig o ran ein gallu i dargedu'r rhai mwyaf anghenus yn ein Cymunedau. Mae gweithio'n agos gyda'n partneriaid yn ein galluogi i ehangu sianeli cyfathrebu a phrosesau rhannu data, er mwyn sicrhau gwelliannau cyson ledled ein Gwasanaeth.

### Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Cwblhau'r gwaith o gyflwyno'r holiadur 'Y Bobl yr ydym yn eu Gwasanaethu' ledled y Gwasanaeth, gan sicrhau bod yr holl bersonél sy'n cynnal Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref yn ymwybodol o'r ffurflen/weithdrefn briodol.
- Parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid Trydydd Sector er mwyn sicrhau bod ein cymunedau mor ddiogel ag y gallant fod, a hynny trwy rannu gwybodaeth a data â grwpiau ac unigolion y nodwyd eu bod yn wynebu risg.
- Gwerthuso effeithiolrwydd ein cytundebau partneriaeth presennol, er mwyn nodi unrhyw feysydd i'w mireinio a'u gwella.

---

## Amcan 2

Parhau i wella dealltwriaeth o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth yn y gweithle.

### Rheswm

Ar hyn o bryd, mae'r Gwasanaeth yn darparu Hyfforddiant Ymsefydlu i'r holl bersonél er mwyn darparu ymwybyddiaeth gychwynnol o faterion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Yn ogystal â hyn, mae'r holl bersonél yn cael hyfforddiant diweddaru bob tair blynedd. Fodd bynnag, fel darparwr gwasanaeth sector cyhoeddus, mae'n bwysig bod ein personél yn cael hyfforddiant manylach a fydd yn eu galluogi i werthfawrogi'n llawn yr amrywiaeth eang o faterion y gallant eu hwynebu wrth reoli perthnasoedd yn y gweithle, yn ogystal â'r rheiny sy'n eu hwynebu wrth iddynt ymateb i ddigwyddiadau ac ymgymryd â gwaith ataliol yn eu cymunedau.

### Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Mae'r Gwasanaeth yn parhau i ddatblygu ei Galendr Ymgyrchoedd blynyddol, gan amlygu dyddiadau nodedig yn y Calendr Amrywiaeth; bydd y Gwasanaeth yn dangos ei gefnogaeth trwy ei dudalennau ar y Cyfryngau Cymdeithasol. Bydd y calendr hwn yn parhau i gael ei ddatblygu o flwyddyn i flwyddyn er mwyn sicrhau bod y Gwasanaeth hefyd yn trosglwyddo negeseuon iechyd, diogelwch a llesiant sy'n berthnasol i'r digwyddiadau hyn, fel y bo'n briodol.
- Cafodd Aelodau Etholedig yr Awdurdod hyfforddiant diweddaru ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant yn ystod Haf 2017, a byddant yn parhau i gael hyfforddiant o'r fath bob tair blynedd.
- Mae'r Gwasanaeth wedi parhau i weithio i godi ymwybyddiaeth ei gyflogeion o faterion megis dementia, dyslecsia, a'r ffordd orau io gyfathrebu â phobl sy'n drwm eu clyw, yn ogystal â'u hymwybyddiaeth o faterion diogelwch yn y cartref sy'n gysylltiedig â dathlu digwyddiadau tebyg i Flwyddyn Newydd y Tsieineaid, Diwalu a Ramadan, i enwi dim ond rhai.
- Ailddrafftio'r Gweithdrefnau Urddas yn y Gweithle a Chydraddoldeb, er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchu arfer gorau cyfredol, ynghyd ag ymrwymiad parhaus y Gwasanaeth i'w staff.

- Creu a chyhoeddi deunyddiau a chanllawiau cyfeirio ychwanegol ar gyfer y rheolwyr a'r staff, i gynnwys gweithdrefnau sy'n ymwneud â Hunaniaeth o ran Rhywedd/Newid Rhywedd yn y Gweithle, er mwyn sicrhau bod personél yn ymwybodol o'r cymorth sydd ar gael yn y Gwasanaeth a thu hwnt, a bod Rheolwyr Llinell yn ymwybodol o unrhyw ystyriaethau perthnasol a allai fod yn ofynnol, er enghraifft addasiadau i'r gweithle/cymorth o ran iechyd galwedigaethol neu amser i ffwrdd o'r gwaith.
- Gweithio'n agos gyda Mind Cymru i gyflwyno Rhaglen Golau Glas Mind ledled y sefydliad. Mae'r hyfforddiant hwn yn cefnogi ymrwymiad y Gwasanaeth i alluogi cyflogeion i feithrin dealltwriaeth o faterion iechyd meddwl ynddynt eu hunain ac yn eraill.




## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Creu a chyhoeddi deunyddiau a chanllawiau cyfeirio ychwanegol ar gyfer y rheolwyr a'r staff, i gynnwys Pecyn Cymorth Mamolaeth/Tadolaeth/Mabwysiadu, a fydd yn sicrhau bod yr holl staff a rheolwyr llinell yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u hawliau yn hyn o beth.
- Archwilio'r posibiliadau o ddod i drefniant ffurfiol ag un o'n sefydliadau partner ar gyfer darparu cyfieithwyr Iaith Arwyddo Prydain (BSL) i gynorthwyo yn ystod Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref.
- Codi ymwybyddiaeth cyflogeion o faterion megis Awtistiaeth, syndrom Asperger a chyflyrau eraill, a fydd yn cynorthwyo'r staff i ddeall a bodloni eu gofynion penodol.
- Dylunio a chyflwyno rhaglen o sesiynau briffio ar gyfer Rheolwyr Llinell, a fydd yn cynnwys materion ymarferol o ran cydraddoldeb a chynhwysiant yn y gweithle.
- Adolygu'r ffordd yr ydym yn darparu Hyfforddiant ar Gydraddoldeb a Chynhwysiant ac Urddas yn y Gwaith, er mwyn sicrhau bod cynifer o'r staff â phosibl yn deall ac yn cymryd rhan ledled y gweithlu.

# Amcan 3

Sicrhau bod yr holl ddeunyddiau cyfathrebu allanol a gynhyrchir gan y sefydliad yn hygyrch i bawb.

## Rheswm

Canfu'r adborth a gafwyd yn rhan o ymgynghoriad diweddar y Gwasanaeth ynghylch amcanion ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol nad oedd yr wybodaeth a gyhoeddid gan y sefydliad yn hygyrch i bawb oedd â diddordeb.

Felly, mae angen ystyried hyn ymhellach er mwyn sicrhau ein bod yn teilwra ein cyhoeddiadau i sicrhau bod cynulleidfa mor eang â phosibl yn gallu eu gweld..

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Dechrau datblygu gwefan allanol newydd. Yn rhan o'r gwaith o ailddatblygu'r wefan, byddwn yn sicrhau ein bod yn dilyn safonau hygyrchedd gwefannau W3C, a gydnabyddir yn rhyngwladol. At hynny, byddwn yn cysylltu â rhanddeiliaid allweddol a fforymau cydraddoldeb er mwyn gwella hygyrchedd y wefan.
- Ar hyn o bryd, rydym yn adolygu ein llenyddiaeth ar ddiogelwch er mwyn gofalu bod ein gwybodaeth allweddol am ddiogelwch ar gael yn yr ieithoedd a'r fformatau sy'n ofynnol gan ein cymunedau.
- Cynhaliwyd rhaglen bellach o hyfforddiant addasu Hawdd ei Ddarllen ym mis Mawrth 2018, a hynny er mwyn sicrhau bod adrannau allweddol o'r Gwasanaeth yn gallu bodloni eu rhwymedigaethau i gyhoeddi dogfennau allweddol a gwybodaeth am ddiogelwch mewn fformat Hawdd ei Ddarllen.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Byddwn yn adolygu ein strategaeth cyfathrebu corfforaethol er mwyn sicrhau ein bod yn cyfathrebu yn yr iaith, yr arddull a'r fformat fwyaf priodol ar gyfer y gynulleidfa darged.
- Byddwn yn adolygu ein strategaeth cyfathrebu, ymgynghori ac ymgysylltu ar gyfer ein proses gynllunio gorfforaethol, er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ymgynghoriad ynghylch ein Cynllun Corfforaethol yn y fformat sydd fwyaf addas ar gyfer y gynulleidfa darged.

# Amcan 4

Gweithio i sicrhau'r gweithlu gorau posibl trwy ofalu bod pob sector o'r gymuned yn ystyried GTACGC yn gyflogwr o ddewis.

## Rheswm

Bydd sicrhau proffil gweithlu mwy amrywiol yn galluogi'r Gwasanaeth i wella'r gwasanaeth a ddarperir ymhellach, ac i adlewyrchu cymunedau lleol yn well.

disability confident

Stonewall
HYRWYDDWR AMRYWIAETH
DIVERSITY CHAMPION
CYMRU

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Trefnu rhaglen o ddiwrnodau ymwybyddiaeth targededig ar gyfer 2018-19, a fydd yn galluogi'r Gwasanaeth i ygysylltu â darpar gyflogeion o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn fwy rheolaidd, ac mewn modd mwy strwythuredig.
- Cynnal adolygiad o'r cyfleusterau sydd ar gael mewn gorsafoedd tân gweithredol a chanolfannau hyfforddiant, fel ei gilydd, er mwyn sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer yr holl bersonél. Canlyniad yr adolygiad hwn oedd sicrhau bod pecynnau lles menywod yn cael eu dosbarthu i bob peiriant tân gweithredol.
- Ailfrandio'r deunyddiau yr ydym yn eu defnyddio i hysbysebu ein diwrnodau ymwybyddiaeth, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd y gynulleidfa ehangaf posibl.
- Defnyddio ein rhwydweithiau cymunedol sefydledig yn fodd i sicrhau bod cyfleoedd o ran gyrfa yn y Gwasanaeth yn cael eu hysbysebu'n fwy eang ac i gynulleidfa fwy amrywiol.
- Cwblhau Lefel 1 Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd Llywodraeth y DU, a dechrau gweithio ar gyflawni achrediad Lefel 2 y Cynllun hwnnw. Nod cyffredinol y Gwasanaeth yw cyflawni Lefel 3 erbyn diwedd 2019.
- Sefydlu Grŵp Gweithlu Cynhwysol, ar y cyd â chyrff cynrychiadol, a fydd yn ein galluogi i rannu a thrafod materion sy'n ymwneud â'r gweithlu ac sy'n mynnu sylw'r Gwasanaeth.
- Cynnal arolwg o'r personél gweithredol benywaidd presennol a'r ymgeiswyr benywaidd aflwyddiannus o ran prosesau dethol gweithredol, fel ei gilydd, er mwyn llywio strategaethau gweithredu cadarnhaol yn y dyfodol.
- Llofnodi Addewid Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i Weithio Ymlaen, gan amlygu ymrwymiad y Gwasanaeth i wneud ei orau glas dros famau beichiog a'r rheiny sy'n dychwelyd o gyfnod mamolaeth.

- Neilltuo ystafell ddynodedig ar gampws y Pencadlys yn 'Ystafell Dawel' lle gall y cyflogeion gadw eu dewis grefydd. Mae'r ystafell hon hefyd ar gael i famau newydd sy'n dychwelyd i'r gweithle ac sy'n dymuno tynnu llaeth o'r fron yn ystod y diwrnod gwaith.




We're a proud Member of Working Forward

WORKING FORWARD
SUPPORTING PREGNANCY AND MATERNITY RIGHTS

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Cwblhau Lefel 2 Cynllun Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd y Llywodraeth, a dechrau gweithio tuag at Lefel 3.
- Gwerthuso llwyddiant deunyddiau'r diwrnod ymwybyddiaeth, sydd wedi'u hailfrandio, o ran llywio penderfyniadau yn y dyfodol.
- Parhau i weithio'n agos gyda fforymau LGBT+ ac Anabledd y Gwasanaeth, er mwyn gwneud newidiadau cadarnhaol ar gyfer ein staff a'n cymunedau, fel ei gilydd.
- Dechrau ar raglen i adnewyddu'r gweithle, a fydd yn cefnogi gweithio hyblyg yn well, yn ogystal â gofynion eraill y gweithlu modern.
- Datblygu strategaethau gweithredu cadarnhaol, sy'n seiliedig ar yr adborth a gafwyd mewn arolygon o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol.

# Amcan 5

Sicrhau bod y Gwasanaeth wrth galon ein cymunedau lleol, ac achub ar y cyfle hwnnw i hyrwyddo goddefgarwch a pharch yn y cymunedau hynny..

## Rheswm

Mae parch mawr at y Gwasanaeth Tân ac Achub mewn cymunedau lleol, ac, o ganlyniad, mae mewn sefyllfa dda i ddylanwadu mewn ffordd gadarnhaol ar y rheiny sy'n byw yn ei ardal. Felly, mae'n bwysig ein bod yn achub ar bob cyfle i hyrwyddo goddefgarwch a pharch wrth ryngweithio â gwahanol grwpiau.

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Parhau i ymgysylltu â grwpiau ym mhob un o'n Hardaloedd Rheoli trwy fynychu fforymau, er enghraifft Lleisiau Sir Benfro dros Gydraddoldeb, Lleisiau Ceredigion dros Gydraddoldeb, Cydraddoldeb Sir Gâr a Fforwm LGBT Abertawe.
- Annog mwy o ddefnydd o'n hystafelloedd cymunedol, a gweithio gyda sefydliadau partner i sicrhau bod ein cymunedau yn ymwybodol o'r cyfleusterau hyn.
- Cynnal perthnasoedd gweithio agos â sefydliadau tebyg i Age Concern, y Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig, Hafal, Gofal, a llawer mwy.
- Cefnogi amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol, gan ddarparu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch ar yr un pryd. Roedd y digwyddiadau hyn yn cynnwys Swansea Sparkle, Diwrnod Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Ddeurywiol a Thrawsrywiol Llanelli, Diwrnod y Rhuban Gwyn, a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.
- Adnewyddu'r Ystafell Gymunedol yng Ngorsaf Dân Llanfair Caereinion, gan sicrhau bod y cyfleuster yn darparu ar gyfer holl aelodau'r gymuned leol.
- Agor caffi cymunedol yng Ngorsaf Dân Aberystwyth, sy'n ceisio integreiddio'r orsaf yn y gymuned leol.
- Agor drysau Ystafell Gymunedol Gorsaf Dân Llanelli ar Ddydd Nadolig ar gyfer trigolion a fyddai, fel arall, ar eu pen eu hunain dros yr Ŵyl.
- Mae'r staff Diogelwch Cymunedol wedi cael hyfforddiant Lefel 1 ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (VAWDA) ar gyfer Fframwaith Hyfforddi Llywodraeth Cymru, a bydd rhai o'r staff yn cael hyfforddiant lefel uwch, sy'n briodol ar gyfer eu rolau.
- Gweithio gyda phobl ifanc o gefndiroedd difreintiedig, a nodwyd gan eu hysgolion yn unigolion a oedd yn dioddef o hunan-barch isel, a chyflwyno cwrs Phoenix wythnos o hyd i hybu eu hunanhyder a'u gallu i weithio fel tîm. Y gobaith yw y bydd hyn yn eu helpu i ymddiddori'n fwy yn yr ysgol, ac i ddatblygu sgiliau cymdeithasol a chyfeillgarwch priodol â'u cyfoedion.
- Gweithio gyda phobl ifanc difreintiedig sydd mewn gofal, trwy gynnal cwrs "Diffoddwr Tân am Ddiwrnod" yn ystod gwyliau hanner tymor y gaeaf yr ysgol.
- Gweithio'n agos gyda'n sefydliadau partner wrth ailsefydlu ffoaduriaid o Syria yn ardal y Gwasanaeth, gan ddarparu gwybodaeth am ddiogelwch yn yr iaith ofynnol, yn ogystal â chyngor priodol ar ddiogelwch, yn ôl y gofyn.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Mae'r staff Diogelwch Cymunedol wedi cwblhau hyfforddiant Lefel 1 ar Drais yn erbyn Menywod a Cham-drin Domestig (VAWDA) ar gyfer Fframwaith Hyfforddiant Llywodraeth Cymru, ac, yn ystod 2018, bydd rhai staff yn cael hyfforddiant lefel uwch sy'n briodol i'w rolau.
- Ehangu'r amrywiaeth o ddigwyddiadau cymunedol yr ydym yn mynd iddynt, yn ogystal â nifer y partneriaid yr ydym yn ymgysylltu â nhw, er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd pob rhan o'r gymuned, ond, ar yr un pryd, ein bod yn gwerthuso eu heffeithiolrwydd o ran ein Hamcanion Corfforaethol Strategol ar gyfer 2018-23.
- Rhoi cyflwyniadau i blant a phobl ifanc ar danau glaswellt a lleihau tanau bwriadol, yn rhan o'n gwaith ar leihau tanau bwriadol ac ymgysylltu â phobl ifanc.

# Amcan 6

Sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn fwy diogel trwy gynnal ymweliadau diogelwch yn y cartref wedi'u targedu..

## Rheswm

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i ymdrin â diogelwch cymunedol mewn modd cyfannol, er mwyn gwella Iechyd a Lles dinasyddion. Mae cymunedau diogel ac iach yn gwella cyfansoddiad economaidd-gymdeithasol ardaloedd lleol yn rhan o ddyheadau Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Darperir pecyn hyfforddiant cadarn o ran Archwiliadau Diogelwch Rhag Tân yn y Cartref i'n Partneriaid Trydydd Sector, er mwyn eu galluogi i gynnal Archwiliadau o'r fath ar gyfer eu Cleientiaid yn rhan o'r gwasanaeth. Cynhelir ymweliadau ar y cyd â'n hasiantaethau partner, er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cynnal yr archwiliadau i'r safon ofynnol. Lle nad oes gan bartneriaid y gallu i gynnal archwiliadau, mae system atgyfeirio ar waith.
- Mae'r dull cyfannol a dreialwyd gan y Gwasanaeth yn ardal Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn llwyddiannus, ac mae'r dull hwn 'nawr yn cael ei ehangu ledled y Gwasanaeth gyda chymorth partneriaid lleol.
- Gweithio gydag asiantaethau partner (y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Heddlu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) i gyflwyno rhaglen Diogel, Iach a Byw'n Annibynnol, yn bennaf i'r rheiny sy'n byw ar eu pen eu hunain ac y mae arnynt angen cymorth a chyngor o ran diogelwch yn y cartref.
- Mae'r dull cyfannol a dreialwyd gan y Gwasanaeth yn Ardal Reoli Castell-nedd Port Talbot wedi bod yn llwyddiannus, a bydd y dull hwn 'nawr yn cael ei ehangu ledled y Gwasanaeth, gyda chymorth partneriaid lleol, er enghraifft Iechyd Cyhoeddus a Safonau Masnach.
- Bydd prosiect partneriaeth amlasiantaethol, sy'n golygu gweithio gydag asiantaethau partner (y Bwrdd Iechyd Lleol, yr Heddlu ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru) i gyflwyno rhaglen Diogel, Iach a Byw'n Annibynnol, yn bennaf i'r rheiny sy'n byw ar eu pen eu hunain ac y mae arnynt angen cymorth a chyngor o ran diogelwch yn y cartref, yn dod i ben ym mis Mawrth 2018. Fodd bynnag, cytunwyd y bydd y Gwasanaeth, ynghyd â'r Heddlu, yn parhau â'r prosiect am 12 mis ychwanegol, er mwyn parhau â'r gwaith o gasglu gwybodaeth o ganlyniadau'r prosiect.
- Ar restr fer Gwobrau Rhagoriaeth Cymru Action on Hearing Loss Cymru ar gyfer 2017.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Parhau i gyflwyno ein cynlluniau Cyd-ymatebwyr mewn Gorsafoedd Tân lleol er mwyn cefnogi Gwasanaeth Ambiwlans Cymru i ddarparu ymateb meddygol brys.
- Cefnogi'r gwaith pellach o gyflwyno'r Cynllun Archwiliad Diogelwch yn y Cartref cyfannol ledled y Gwasanaeth, gan sicrhau bod yr holl staff yn cael yr hyfforddiant a'r wybodaeth briodol sy'n ofynnol i gyflawni'r swyddogaeth. Bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth i gasglu

cymaint o wybodaeth â phosibl, ac i ddarparu cyngor cynhwysfawr ar ddiogelwch yn y cartref a lles personol.

- Datblygu mentrau cyfannol o ran diogelwch yn y cartref trwy Gynlluniau Lles Drafft y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, a hynny yn rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

# Amcan 7

Datblygu cyfleoedd ymgysylltu â'n gweithlu er mwyn sicrhau bod pawb yn parhau i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys, a sicrhau bod cyfle cyfartal yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o'r gweithlu..

## Rheswm

Mae'r Gwasanaeth wedi ymrwymo i fabwysiadu diwylliant sy'n galluogi'r holl bersonél i fod yn driw iddynt eu hunain yn y gweithle. Ni all cyflogeion sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cynnwys ond wella enw da'r Gwasanaeth fel cyflogwr o ddewis ym mhob rhan o gymdeithas, a gwella'r gwasanaeth a ddarparwn.

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Parhau i gefnogi presenoldeb cyflogeion mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau, er enghraifft Cynhadledd Flynyddol Stonewall a Rhaglenni Cynghreiriaid LGBT, yn ogystal â digwyddiadau Rhwydweithio Menywod yn y Gwasanaeth Tân.
- Sicrhau bod y mecanweithiau angenrheidiol ar waith ar gyfer y Fforymau LGBT ac Anabledd, fel ei gilydd, er mwyn rhoi adborth uniongyrchol i Dîm Arweinyddiaeth Weithredol y Gwasanaeth.
- Gweithio'n agos gyda nifer o bersonél gweithredol a'u rheolwyr llinell wrth weithredu addasiadau rhesymol i gynorthwyo â dyslecsia.
- Penodi Hyrwyddwr Cydraddoldeb sy'n Aelod Etholedig.
- Cynnal arolwg o'n personél gweithredol benywaidd, er mwyn ystyried meysydd y gallai'r Gwasanaeth eu gwella, yn eu barn nhw.
- Adolygu ffurflen y Cyfweliad Ymadael er mwyn casglu gwybodaeth fanylach am resymau unigolion dros adael y sefydliad.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Cynnal cyfarfod cyntaf Grŵp Gweithlu Cynhwysol y Gwasanaeth, a sefydlu ei gylch gorchwyl.
- Dadansoddi data cyfweliadau ymadael ledled y Gwasanaeth er mwyn sefydlu unrhyw themâu neu dueddiadau cyffredin a allai helpu i gadw staff yn y dyfodol.
- Parhau i chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â phob sector o'r gweithlu, a defnyddio unrhyw adborth a geir i lywio strategaethau/polisïau/prosesu yn y dyfodol.

# Amcan 8

Cynnwys egwyddorion Cydraddoldeb ac Amrywiaeth mewn prosesau gwneud penderfyniadau a pholisïau allweddol, er mwyn eu prif-ffrydio i waith o ddydd i ddydd.

## Rheswm

Er mwyn cyflawni ei ymrwymiad parhaus i Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, rhaid i'r Gwasanaeth sicrhau bod yr holl brosesau mewnol ar gyfer llunio polisïau a gwneud penderfyniadau yn gyson â'i benderfyniadau strategol.

## Yr hyn yr ydym wedi'i wneud

- Cychwyn adolygiad cynhwysfawr o'n Ffurflenni ar gyfer Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni gofynion ac amcanion y Gwasanaeth wrth symud ymlaen.
- Cymryd camau i sicrhau bod holl weithdrefnau'r Gwasanaeth yn gynhwysol o ran pobl Drawsrywiol, a bod yr holl ddogfennau sy'n berthnasol i gyflogaeth yn cael eu diweddaru fel sy'n ofynnol.

## Yr hyn yr ydym yn bwriadu ei wneud o hyd

- Cwblhau'r adolygiad o'r broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn gweithredu system ar-lein ar gyfer llenwi a chyflwyno Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.
- Darparu hyfforddiant ychwanegol ar gyfer rheolwyr canol ar y broses o gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

---

## Y Dyfodol

Er ein bod wedi dechrau casglu peth data demograffig ystyrlon yn rhan o'r broses o gynnal Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref, mae swm y data a gasglwyd yn gymharol fach o gymharu â nifer yr Archwiliadau Diogelwch a gynhaliwyd. O gofio hyn, un o feysydd ffocws y Gwasanaeth yn ystod y cyfnod adrodd nesaf fydd cynyddu swm y data a gesglir yn y modd hwn, a hynny er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau mwy gwybodus ynghylch y modd y gellir helpu'r rheiny sy'n wynebu'r risg fwyaf yn ein cymunedau wrth i ni symud ymlaen.

Gobeithio bod yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol i chi. Os hoffech roi adborth, neu ofyn am gopi ohono mewn fformat arall, cysylltwch â Mr Kevin Jones, Cyfarwyddwr Adnoddau y Gwasanaeth:

**Mr Kevin Jones,** Cyfarwyddwr Adnoddau y Gwasanaeth

Ebost: **k.jones@tancgc.gov.uk**

Post: **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru,**
**Pencadlys y Gwasanaeth, Lôn Pisgwydd, Caerfyrddin, SA31 1SP**

# DATA STAFF GTACGC
(ar 31 Ionawr 2018)

| Rhywedd (Staff Presennol) | |
|---|---|
| Benyw | 195 |
| Gwryw | 1093 |
| **Cyfanswm** | **1288** |

| Anabledd (Wedi ei Ddatgan) (Staff Presennol) | |
|---|---|
| Benyw | 3 |
| Gwryw | 35 |
| **Cyfanswm** | **38** |

| Oedran (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| 16-24 | 14 | 97 |
| 25-34 | 45 | 256 |
| 35-44 | 70 | 293 |
| 45-54 | 38 | 349 |
| 55-64 | 24 | 92 |
| 65+ | 4 | 6 |
| **Total** | **195** | **1093** |

| Hil/Ethnigrwydd (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Tsieineaidd | 0 | 1 |
| Gwyn ac Asiaidd | 0 | 0 |
| Gwyn a Du Caribïaidd | 0 | 0 |
| Bangladeshaidd | 1 | 1 |
| Indiaidd | 0 | 1 |
| Gwyn Prydeinig | 179 | 1020 |
| Gwyn Arall | 0 | 10 |
| Cymysg Arall | 0 | 2 |
| Yn well ganddynt beidio â dweud | 15 | 58 |
| **Cyfanswm** | **195** | **1093** |

| Crefydd neu Gred (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Cristnogol | 64 | 404 |
| Islam | 0 | 1 |
| Bwdhaidd | 0 | 5 |
| Sikh | 0 | 0 |
| Arall | 1 | 7 |
| Dim | 61 | 293 |
| Yn well ganddynt beidio â dweud | 69 | 383 |
| **Cyfanswm** | **195** | **1093** |

| Statws Priodasol (Staff Presennol) | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Sengl | 75 | 447 |
| Priod | 97 | 568 |
| Partneriaeth | 4 | 8 |
| Wedi ysgaru | 14 | 61 |
| Gweddw | 3 | 2 |
| Partneriaeth Sifil | 0 | 2 |
| Wedi gwahanu | 0 | 2 |
| Arall | 0 | 0 |
| Yn well ganddynt beidio â dweud | 2 | 3 |
| **Cyfanswm** | **195** | **1093** |

| Hunaniaeth o ran Rhywedd yr un fath ag yr oedd pan gawsant eu geni | Benyw | Gwryw |
|---|---|---|
| Ydy | 144 | 835 |
| Nac ydy | 0 | 0 |
| Yn well ganddynt beidio â dweud | 51 | 258 |
| **Cyfanswm** | **195** | **1093** |

